# Sgyrsiau Creadigol

## Crynodeb Ymchwil: Gwella cyfathrebu rhwng staff gofal dementia a'u preswylwyr: ymyriad wedi ei ysbrydoli gan y celfyddydau

### Beth yw 'Sgyrsiau Creadigol '?

Roedd Sgyrsiau Creadigol yn edrych i weld a ellid defnyddio'r celfyddydau fel dull o wella sgiliau staff gofal dementia.

Roedd y project yn bartneriaeth rhwng Prifysgol Bangor, Dementia Positive a TenFiveTen (cwmnïau preifat) a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint.

### Pam wnaethom ni gynnal y project hwn?

Mae cartrefi gofal yn llefydd prysur ac mae staff gofalu yn aml yn teimlo bod tensiwn rhwng cyflawni gorchwylion a chymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon gyda'r preswylwyr.

Mae ymchwil flaenorol wedi dangos pan fydd staff gofalu wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol gyda phobl sy'n byw gyda dementia bod ganddynt yn aml well dealltwriaeth o'r bobl y maent yn gofalu amdanynt, er nad dyna oedd diben y gweithgaredd.





### Beth wnaethom ni?

Fe wnaethon ddatblygu a phrofi'r rhaglen 'Sgyrsiau Creadigol' sef rhaglen a oedd yn defnyddio amrywiaeth o weithgareddau creadigol (barddoniaeth, ffilm, cerddoriaeth, gwneud celf) i helpu staff i sylweddoli'r posibiliadau sydd ar gael o fewn gofal dementia. Ei nod oedd darparu sgiliau cyfathrebu ymarferol i staff er mwyn gwella'r berthynas ofal rhwng staff a phreswylwyr yn eu hymarfer o ddydd i ddydd.



### Pwy gymerodd ran?

Cymerodd 44 o staff gofalu o 14 o gartrefi gofal yn Sir y Fflint ran yn y project. Merched oedd pob un ohonynt ac roedd ganddynt gryn brofiad o weithio ym maes gofal dementia.

** Mae rhaglen datblygu staff 'Sgyrsiau Creadigol' yn seiliedig ar ddwy raglen gynharach, sef:*

*1) Project Descartes a luniwyd gan Hannah Zeilig, (Zeilig, Poland, Killick & Fox, 2015, The Arts in Dementia Care Education, yn y Journal of Public Mental Health 14(1) 18-23.) Roedd Descartes yn arloesi wrth ddefnyddio deunydd sy'n seiliedig ar y celfyddydau i addysgu staff mewn cartrefi gofal.*

*2) The Arts and Older People Project and John Killick yn The Courtyard, Henffordd. Defnyddiodd y project hwn farddoniaeth i gyfoethogi sgyrsiau creadigol a galluogi cyfathrebu tosturiol. (The Arts and Older People Project and Killick, J. (2015) The best words, in the best order: A toolkit for making poems in dementia care settings. The Courtyard Centre for Arts, Henffordd).*

> "Mae'n dangos y gallwch chi ddefnyddio unrhyw beth yn dydy? Unrhyw beth. Gwrthrych, llun, a does dim rhaid i chi gynllunio bob tro chwaith - mi fedrwch chi jest defnyddio'r peth hwnnw. Hyd yn oed os ydy hynny ddim ond am bum munud, mae o dal yn rhywbeth. Mae o'n dal yn rhyngweithiad, yn dydy? Efallai na fyddan nhw [preswylwyr] yn rhyngweithio efo neb arall drwy'r prynhawn heblaw am hynny. " WD01

## Beth yw'r prif ganfyddiadau?

- Dywedodd staff fod dysgu drwy'r celfyddydau wedi eu helpu i sylweddoli y gallai gweithgareddau ystyrlon fod yn syml ac wedi'u teilwra i'r preswylydd unigol (yn hytrach na bod yn weithgaredd grŵp mwy cymhleth sydd wedi ei gynllunio ymlaen llaw).
- Mae'r gweithdai wedi atgyfnerthu dealltwriaeth y staff gofalu o bwysigrwydd cyfathrebu'n ddi-eiriau gyda'r preswylwyr.
- Dywedodd y staff fod ganddynt fwy o hyder i roi cynnig ar ddulliau creadigol o ofalu.
- Mae 'Sgyrsiau Creadigol' wedi gwella dealltwriaeth staff gofalu o'r preswylwyr ac wedi cyfoethogi yr empathi sydd ganddyn nhw at y rhai y maen nhw'n gofalu amdanynt.
- Roedd y staff yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod, dysgu gan staff eraill a chael lle i fyfyrio ar eu hymarfer eu hunain yn y gweithdai.
- Mae 'Sgyrsiau Creadigol' wedi rhoi syniadau newydd i'r staff roi cynnig arnynt yn y cartref gofal.
- Nododd staff fod rhai o'r gweithgareddau a awgrymwyd wedi annog y preswylwyr i ryngweithio â'i gilydd, hyd yn oed gyda'r rhai na fyddent fel arfer yn rhyngweithio â nhw.

## Beth yw'r goblygiadau?

- Gall y celfyddydau wella sgiliau staff gofal dementia, hyd yn oed y rhai sydd â blynyddoedd lawer o brofiad.
- Rydym wedi dangos y gallai rhaglenni sy'n seiliedig ar y celfyddydau ac sy'n dra gwahanol i hyfforddiant ffurfiol nodweddiadol sy'n 'seiliedig ar ffeithiau' fod yn ddefnyddiol ar gyfer datblygu sgiliau'r gweithlu gofal dementia.
- Gall fod potensial hefyd i 'Sgyrsiau Creadigol' gefnogi gofalwyr di-dâl sy'n gofalu am bobl sy'n byw gyda dementia (megis aelodau o'r teulu a ffrindiau).
- Yn dilyn llwyddiant y project ymchwil, mae Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint wedi sicrhau cyllid i gynnal 'Sgyrsiau Creadigol' am flwyddyn arall.




## Darllenwch y cyhoeddiad llawn

Mae'r erthygl sy'n disgrifio 'Sgyrsiau Creadigol' wedi ei chyhoeddi'n llawn mewn cyfnodolyn a adolygir gan gyfoedion ac mae ar gael yn rhad ac am ddim yn:

Windle, G., Algar-Skaife, K., Caulfield, M., Pickering-Jones, L., Killick, J., Zeilig, H. & Tischler, V. (2019): Enhancing communication between dementia care staff and their residents: an arts-inspired intervention, *Aging & Mental Health*. https://doi.org/10.1080/13607863.2019.1590310

Sgyrsiau Creadigol: Astudiaeth archwiliadol o ddull celfyddydau mewn iechyd o wreiddio gofal sy'n canolbwyntio ar y person a gwella cyfathrebu rhwng staff gofalu a phobl sy'n byw gyda dementia. Gwnaed yr astudiaeth mewn partneriaeth rhwng Prifysgol Bangor, Dementia Positive, TenFiveTen a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint a chafodd ei hariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Llywodraeth Cymru gyda chefnogaeth y Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia a Created Out of Mind.
**I gael rhagor o wybodaeth: k.algar@bangor.ac.uk; +44 (0) 01248 382226; @kat_algar**